# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 27 Medi 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

## 19(v4)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Adolygiad Diamond o Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru

(60 munud)

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Sefydlu'r Gronfa Triniaethau Newydd a'r Adolygiad Annibynnol o'r Broses Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol

(45 munud)

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Croesawu'n ôl Athletwyr Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Rio 2016

(30 munud)

## 6 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Plismona a Throsedd

(15 munud)

**NDM6098** Rebecca Evans (Gŵyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Plismona a Throsedd sy'n diwygio Deddf Iechyd Meddwl 1983 a Deddf Troseddau Rhywiol 2003, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mehefin 2016 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i) a (iii).

'Bil Plismona a Throsedd'

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Plismona a Throsedd

## 7 Dadl: Siarter Ddrafft y BBC

(60 munud)

**NDM6097** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi Siarter Frenhinol ddrafft y BBC a Chytundeb Fframwaith drafft y BBC.

'Siarter Frenhinol ddrafft y BBC a Chytundeb drafft y BBC'

**Dogfen Atodol**

'Datganiad Ysgrifenedig gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes – Adolygu Siarter y BBC'

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r cyfeiriadau cadarnhaol at S4C yng Nghytundeb Fframwaith Drafft y BBC ac yn enwedig y cyfeiriad at y nod a gaiff ei rannu rhwng S4C a'r BBC o gydweithio i gydnabod ac amddiffyn eu hannibyniaeth.

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod yr adolygiad arfaethedig o gylch gwaith a chyllid S4C, a ddisgwylir yn 2017, yn ystyried lefel y cyllid, a'r dull mwyaf priodol o gyllido S4C yn yr hirdymor i amddiffyn ei hannibyniaeth a sicrhau y gall gynhyrchu rhaglenni o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd Cymru am flynyddoedd i ddod.

**Gwelliant 3.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi, â phryder, y goblygiadau i BBC Cymru o ran peidio â newid ffi'r drwydded.

**Gwelliant 4.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y BBC i sicrhau y caiff adnoddau eu dyrannu i anrhydeddu'r ymrwymiadau a wnaed yn Siarter Frenhinol Ddrafft y BBC i gynulleidfaoedd yng Nghymru, gan gynnwys:

(a) bod y BBC yn adlewyrchu ac yn cynrychioli cymunedau amrywiol y DU, a'i bod yn codi ymwybyddiaeth o'r gwahanol ddiwylliannau a safbwyntiau yn ei chymdeithas;

(b) bod yn rhaid i'r BBC gefnogi ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifoedd y DU, a pharhau i gefnogi rhaglenni a gynhyrchir yn Gymraeg; ac

(c) bod safbwyntiau a diddordebau gwahanol y cyhoedd a chynulleidfaoedd ledled y DU yn cael eu hystyried wrth i'r BBC wneud penderfyniadau.

**Gwelliant 5.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau y bydd unrhyw reoleiddiwr y BBC yn y dyfodol hefyd yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 8 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 28 Medi 2016